# Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040

Canllaw i Gymru'r Dyfodol

## Cwestiynau Cyffredin

**24 Chwefror 2021**

**Beth yw'r ddogfen hon?**

Mae'r ddogfen hon wedi'i pharatoi i gyd-fynd â Cymru'r Dyfodol pan gaiff ei chyhoeddi ar 24 Chwefror 2021. Mae'n ateb llawer o'r cwestiynau sy'n cael eu gofyn i Lywodraeth Cymru am Cymru'r Dyfodol.

**Beth yw statws y ddogfen hon?**

Dogfen wybodaeth yw hon. Nid yw'n rhan o Cymru'r Dyfodol. Mae'n seiliedig ar y ddeddfwriaeth ac nid yw'n cyflwyno gofynion newydd. Dylai darllenwyr edrych ar y ddeddfwriaeth i weld beth yn union yw'r gofynion statudol.

**Pryd daw Cymru'r Dyfodol i rym?**

Ar ddiwrnod ei gyhoeddi, ar 24 Chwefror 2021.

**Beth yw statws Cymru'r Dyfodol?**

Cymru'r Dyfodol yw fframwaith datblygu cenedlaethol Llywodraeth Cymru. Yn unol ag Adran 38 o Ddeddf Gynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, mae Cymru'r Dyfodol yn rhan o'r cynllun datblygu.

**A yw Cymru'r Dyfodol cymryd lle Cynlluniau Datblygu Lleol?**

Nac ydy. Mae Cymru'r Dyfodol yn rhan o gynllun datblygu ardal, hynny ar y cyd â'r Cynllun Datblygu Lleol (neu'r Cynllun Datblygu Unedol os oes un yn bod) ac ymhen amser y Cynllun Datblygu Strategol. O ddyddiad ei gyhoeddi, wrth benderfynu ar gais cynllunio, rhaid cydymffurfio â'r Cynllun Datblygu Lleol (neu'r Cynllun Datblygu Unedol os oes un yn bod) a Cymru'r Dyfodol; ac ymhen amser, y Cynllun Datblygu Strategol.

**A fydd Cymru'r Dyfodol yn effeithio ar benderfyniadau cynllunio ac apeliadau cynllunio a oedd 'yn y system' cyn cyhoeddi Cymru'r Dyfodol ac ar gynlluniau datblygu sydd wrthi'n cael eu paratoi?**

Bydd. Bydd gofyn i geisiadau cynllunio ac apeliadau cynllunio sy'n aros am benderfyniad, a chynlluniau datblygu sydd wrthi'n cael eu paratoi, gydymffurfio'n fras â Cymru'r Dyfodol.

## Beth mae cyhoeddi Cymru'r Dyfodol yn ei olygu i geisiadau cynllunio unigol?

Wrth benderfynu ar gais cynllunio, bydd gofyn i'r rheini sy'n penderfynu ystyried polisïau Cymru'r Dyfodol a pholisïau'r Cynllun Datblygu Lleol (neu'r Cynllun Datblygu Unedol os oes un yn bod).

Awdurdodau Cynllunio Lleol sy'n penderfynu ar y rhan fwyaf o geisiadau lleol. Maen nhw'n ddatblygiadau bach o ddiddordeb lleol yn hytrach nag yn rhai o arwyddocâd rhanbarthol neu genedlaethol. Mae Cymru'r Dyfodol yn canolbwyntio ar faterion cenedlaethol a rhanbarthol ac er bod yn rhaid ystyried ei bolisïau, polisïau'r Cynllun Datblygu Lleol (neu'r Cynllun Datblygu Unedol) fydd yn rhoi'r fframwaith rheoli datblygu manwl yn y mwyafrif llethol o achosion.

## Pa rai o bolisïau Cymru'r Dyfodol sy'n berthnasol i gais cynllunio?

Dylech ddarllen Cymru'r Dyfodol fel dogfen gyfan ac ni ddylech ystyried ei bolisïau ar eu pen eu hunain. Gallai gwahanol agweddau ar bolisi a'u heffaith ar gynnig datblygu penodol gael eu trin yn rhannau gwahanol Cymru'r Dyfodol. Mae'n bwysig wrth ystyried cynigion bod penderfynwyr felly yn sicrhau eu bod yn rhoi sylw i'r holl bolisïau perthnasol yn Cymru'r Dyfodol.

## Ydy Cymru'r Dyfodol yn cymryd lle Polisi Cynllunio Cymru?

Nac ydy. Polisi Cynllunio Cymru yw prif ddatganiad Llywodraeth Cymru ar bolisi cynllunio o hyd a bydd yn parhau'n berthnasol i bob agwedd ar y broses gynllunio. Cafodd fersiwn newydd o Bolisi Cynllunio Cymru (rhifyn 11) ei chyhoeddi ar 24 Chwefror 2021.

## Beth yw'r berthynas rhwng PCC a Cymru'r Dyfodol?

Polisi Cynllunio Cymru sy'n pennu prif egwyddorion y system gynllunio. Mae'n pennu beth mae'n rhaid i gynlluniau datblygu a phenderfyniadau'r system gynllunio eu cyflawni a sut y dylid llunio datblygiad fel ei fod yn sicrhau'r canlyniadau gorau. Nid yw PCC yn rhan o'r cynllun datblygu.

Mae Cymru'r Dyfodol yn rhoi egwyddorion Polisi Cynllunio Cymru ar waith ac yn dweud ble yng Nghymru y dylai datblygiad ddigwydd a sut y dylai'r llefydd hynny dyfu a newid.

Nid yw Cymru'r Dyfodol yn ailadrodd egwyddorion Polisi Cynllunio Cymru ac nid yw'n delio â phob agwedd ar bolisi cynllunio. Bydd angen ystyried Polisi Cynllunio Cymru o hyd wrth baratoi cynlluniau datblygu ac wrth wneud penderfyniadau rheoli datblygu.

## Beth yw'r berthynas rhwng Cymru'r Dyfodol a'r Nodiadau Cynghori Technegol?

Bydd Nodiadau Cynghori Technegol yn parhau ar ôl cyhoeddi Cymru'r Dyfodol. Byddan nhw'n dal i roi cyngor technegol ychwanegol i helpu i roi Polisi Cynllunio Cymru a Cymru'r Dyfodol ar waith.

## Pam nad yw Cymru'r Dyfodol yn ymdrin â phob pwnc polisi cynllunio?

Nid bwriad Cymru'r Dyfodol yw cymryd lle Polisi Cynllunio Cymru na'r Nodiadau Cynghori Technegol ac nid ei rôl yw darparu polisi cynllunio ar gyfer pob pwnc cynllunio. Nid yw Cymru'r Dyfodol yn ailadrodd materion cynllunio nad ydyn nhw'n rhai gofodol neu sydd eisoes yn cael eu trafod ym Mholisi Cynllunio Cymru a'r Nodiadau Cynghori Technegol. Dylech ddarllen Cymru'r Dyfodol gyda Pholisi Cynllunio Cymru a lle bo angen, y Nodiadau Cynghori Technegol.

## Ydy Cymru'r Dyfodol yn cymryd lle Cynllun Gofodol Cymru?

Ydy. Mae Cymru'r Dyfodol yn cymryd lle Cynllun Gofodol Cymru o ddyddiad ei gyhoeddi.

## Beth mae Cymru'r Dyfodol yn ei olygu i'r Cynlluniau Datblygu Lleol?

Roedd gan bron pob rhan o Gymru Gynllun Datblygu Lleol cyn cyhoeddi Cymru'r Dyfodol. Bydd gofyn i Gynlluniau Datblygu Lleol gydymffurfio'n fras â Cymru'r Dyfodol.

Bydd angen i Awdurdodau Cynllunio Lleol adolygu'u Cynllun Datblygu Lleol i sicrhau bod eu Cynllun Datblygu Lleol yn cydymffurfio'n fras â Cymru'r Dyfodol. Os gwelan nhw nad yw'n cydymffurfio, yna bydd angen newid y Cynllun Datblygu Lleol.

## Beth mae Cymru'r Dyfodol yn ei olygu i Gynlluniau Datblygu Lleol sydd wrthi'n cael eu paratoi?

Mae Awdurdodau Cynllunio Lleol wedi bod yn ymwybodol ers sawl blwyddyn bod Cymru'r Dyfodol yn cael ei ddatblygu, ac yn sgil cyhoeddi drafftiau, bydden nhw hefyd wedi bod yn ymwybodol o'r fframwaith polisi y mae Cymru'r Dyfodol yn ei greu. Os yw Awdurdod Cynllunio Lleol wrthi'n paratoi Cynllun Datblygu Lleol, bydd gofyn iddo ystyried Cymru'r Dyfodol a sicrhau bod y Cynllun Datblygu Lleol yn cydymffurfio'n fras ag e.

**Mae Cymru'r Dyfodol yn cyfeirio at Gynlluniau Datblygu Strategol. Nid oes gan fy ardal i Gynllun Datblygu Strategol. Beth mae hyn yn ei olygu?**

Nid oes Cynlluniau Datblygu Strategol wedi'u paratoi eto yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru'n gryf o blaid eu paratoi a bydd yn gweithio gydag Awdurdodau Cynllunio Lleol a Chyd-bwyllgorau Corfforaethol i'w darparu.

Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a rheoliadau sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforaethol yn nodi'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer paratoi Cynlluniau Datblygu Strategol. Mae Cymru'r Dyfodol yn darparu polisïau ar gyfer Cynlluniau Datblygu Strategol pob rhanbarth. Mae dyletswydd orfodol ar CBC i baratoi CDS.

Os nad oes Cynllun Datblygu Strategol wedi'i baratoi, cynllun datblygu'r ardal fydd Cymru'r Dyfodol a'r Cynllun Datblygu Lleol fydd wedi'i fabwysiadu.

**A oes angen Cynlluniau Datblygu Strategol ym mhob rhanbarth?**

Oes. Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn rhoi dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i weithio gyda'i gilydd i baratoi Cynlluniau Datblygu Strategol. Mae Cymru'r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol bod Cynlluniau Datblygu Strategol yn cael eu datblygu ym mhob un o'r pedwar rhanbarth, ac yn rhoi cyd-destun clir ar gyfer pob rhanbarth a pholisïau i gefnogi cynlluniau rhanbarthol.

**A fydd yr ardaloedd twf cenedlaethol a rhanbarthol a restrir yn Cymru'r Dyfodol yn effeithio ar gynlluniau datblygu strategol a lleol?**

Byddan. Mae Cymru'r Dyfodol yn enwi'r llefydd y dylai cynlluniau datblygu strategol a lleol ganolbwyntio arnyn nhw o safbwynt twf a buddsoddi; a lle bydd Llywodraeth Cymru yn buddsoddi ynddyn nhw yn y dyfodol ac defnyddio'i pholisïau i'w helpu i dyfu. Yn y rhannau hynny o Gymru sydd y tu allan i ardaloedd twf cenedlaethol a rhanbarthol Cymru'r Dyfodol, dylai'r ffocws fod ar gynllunio ar gyfer anghenion lleol. Bydd gofyn i gynlluniau datblygu strategol a lleol ddangos yn glir sut maen nhw'n cydymffurfio â strategaeth ofodol Cymru'r Dyfodol.

**Beth mae 'system y cynllun datblygu tair haen' yn ei golygu?**

Unwaith y bydd rhanbarth yn mabwysiadu Cynllun Datblygu Strategol, bydd tri chynllun datblygu gwahanol yn eu lle – Cymru'r Dyfodol (cynllun datblygu cenedlaethol). Cynllun Datblygu Strategol (cynllun datblygu rhanbarthol) a Chynllun Datblygu Lleol 'ysgafn' – y cyntaf yn canolbwyntio ar faterion gofodol cenedlaethol, yr ail ar faterion rhanbarthol a'r trydydd ar y lleol.

**Beth mae Cymru'r Dyfodol yn ei olygu i Gynlluniau Lleoedd?**

Gellir paratoi Cynlluniau Lleoedd fel Canllawiau Atodol ar gyfer Cynlluniau Datblygu Lleol. Er nad oes gofyn statudol ar Gynlluniau Lleoedd gydymffurfio â Cymru'r Dyfodol, mae gofyn i Gynlluniau Datblygu Lleol gydymffurfio, felly o ganlyniad, bydd Cynlluniau Lleoedd yn cydymffurfio hefyd.

Gan fod Cymru’r Dyfodol a Chynlluniau Lleoedd yn gweithredu ar lefelau gwahanol, byddan nhw’n ymdrin â materion gwahanol. Mae’r rheini sy’n paratoi Cynlluniau Lleoedd yn cael eu hannog i ddefnyddio polisïau Cymru’r Dyfodol pan fo’n hynny’n briodol i’w helpu i baratoi Cynllun Lle.

**A fydd Cymru’r Dyfodol yn effeithio ar Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol?**

Bydd. Ceisiadau cynllunio yw Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol a gyflwynir i Weinidogion Cymru gael penderfynu arnynt, yn unol â’r cynllun datblygu a fabwysiedir, gan gynnwys Cymru’r Dyfodol.

**Pam nad yw Cymru’r Dyfodol yn cynnwys materion cynllunio ar y môr?**

Mae Cymru’r Dyfodol yn ymdrin â thir yng Nghymru, hyd at farc y distyll. Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru sy’n ymdrin â’r môr. Maent yn cynnig fframwaith cydgysylltiedig ar gyfer tir a môr Cymru.

**Am faint y bydd Cymru’r Dyfodol yn para?**

Cynllun 20 mlynedd yw Cymru’r Dyfodol a daw i ben ar 31 Rhagfyr 2040.

**A fydd Cymru’r Dyfodol yn cael ei adolygu?**

Bydd Llywodraeth Cymru’n cadw golwg ar Cymru’r Dyfodol. Yn unol â Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, gellir newid Cymru’r Dyfodol unrhyw bryd, ond o leiaf bum mlynedd ar ôl ei gyhoeddi. Bydd Llywodraeth Cymru’n paratoi adroddiad ar gyfer y Senedd i esbonio a ddylai Cymru’r Dyfodol gael ei newid, ac os dylai, bydd yn cynnig amserlen ar gyfer ei newid.

**Sut mae newid Cymru’r Dyfodol?**

Disgrifir y drefn ar gyfer newid Cymru’r Dyfodol yn Neddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004. Bydd y Senedd yn gorfod cael gwybod beth sy’n cael ei newid a’r amserlen ar gyfer hynny.

### Ble ca i weld Cymru'r Dyfodol?

Mae Cymru'r Dyfodol ar gael ichi ei weld yma.

### Ble ca i wybod mwy sut cafodd Cymru'r Dyfodol ei baratoi?

Disgrifir y drefn ar gyfer paratoi a newid Cymru'r Dyfodol yn Neddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (fel y'i diwygir gan Ddeddf Gynllunio (Cymru) 2015).

Mae Datganiad Cyfranogiad y Cyhoedd yn nodi'r amserlen a'r drefn ar gyfer paratoi Cymru'r Dyfodol.

Mae'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig a'r Asesiad o Reoliadau Cynefinoedd yn disgrifio'r broses asesu a fu'n sail ar gyfer paratoi Cymru'r Dyfodol.

Mae'r Casgliad o Dystiolaeth yn disgrifio'r dystiolaeth a gafodd ei defnyddio wrth baratoi Cymru'r Dyfodol.

Fe welwch amrywiaeth o wybodaeth amdano ar dudalennau Cymru'r Dyfodol .

### Sut alla i gael newyddion am Cymru'r Dyfodol?

Tanysgrifiwch i gylchlythyr Cymru'r Dyfodol yma.